

# technocamps

Inspiring | Creative | Fun

Ysbrydoledig | Creadigol | Hwyl



## Dylunio Gwefannau yn Nvu Awgrymiadau Defnyddiol



Mae Nvu (caiff ei ynganu fel “N-view”) yn feddalwedd ffynhonnell agored sy’n eich galluogi i greu eich tudalennau gwe eich hunain trwy ddefnyddio WYSIWYG editor (“what you see is what you get”). Wrth greu tudalen we ar Nvu, gallwch hefyd ychwanegu swyddogaethau yn hytrach na’r elfennau dylunio yn unig, gan newid yn ôl ac ymlaen rhwng yr adrannau dylunio ac HTML.

Nid oes angen i chi fod yn gyfarwydd â HTML na CSS i ddefnyddio’r feddalwedd hon, felly mae Nvu yn ddelfrydol i ddechreuwyr sydd am ddysgu rhagor am ddylunio gwefannau. Gellir lawrlwytho Nvu i’r systemau gweithredu canlynol: Windows, Mac neu Linux.

### Beth yw CSS a HTML?

Nid ydynt yn ieithoedd rhaglennu. Yn wir, mae HTML yn iaith arwyddnodi ac mae CSS yn iaith arddull. Diffinnir iaith arwyddnodi fel casgliad o’r hyn a elwir yn dagiau arwyddnodi, a ddefnyddir i ddisgrifio cyd-destun gwefan neu ddogfen. Mae iaith arddull yn newid y ffordd y mae elfennau’n edrych ar eich tudalen.

Fel arfer mae tagiau HTML yn allweddeiriau neu enwau tagiau sy’n cael eu hamgylchynu gan fachau onglog e.e. `<html>` ac maent fel arfer yn dod mewn paru. Mae un o’r rhain yn “Agor” y tag ac mae’r llall yn ei “Gau”. Mae tagiau cychwyn yn edrych fel hyn `<head>` – ac mae tagiau diwedd yn edrych fel hyn `</head>`.

Mae CSS yn chwilio am dagiau yn yr HTML er mwyn gwybod at beth i ychwanegu arddull. Yna mae’n cynrychioli’r elfennau mewn ffordd a nodir gan y priodweddau gan ddechrau â #. Mae arddull elfen yn cael ei rhoi mewn bachau cyrllog ar ôl enw’r elfen.

Wrth ddefnyddio'r feddalwedd Nvu, mae tabiau tuag at waelod y sgrin sy'n cael eu defnyddio wrth ddatblygu. Y tab cyntaf yw "Normal", gan ddefnyddio'r WYSIWYG editor mode. Wrth i chi deipio ac ychwanegu cynnwys at eich gwefan, mae'n ei throsi'n ddogfen HTML y tu ôl i'r llenni. I weld y cod hwn gallwch glicio ar y tab "Source". Bydd y tab "HTML Tags" yn dangos dadansoddiad o'r tagiau HTML, yn y rhyngwyneb "Normal", a bydd hyn o gymorth mawr i ddechreuwr wrth gael eu cyflwyno i HTML.

I ddilyn mae awgrymiadau a chyngor i chi ar sut i ychwanegu cynnwys at eich gwefan:

### Ffontiau:

Gallwch newid ffontiau trwy ddewis y testun rydych wedi'i deipio ar y sgrin yn y tab "Normal" ac yna gallwch glicio ar y dewis "Format" ar y ddewislen ar frig y ffenestr, yna trwy ddewis yr is-ddewis "Font" byddwch yn gallu dewis pa ffont i'w ddefnyddio ar gyfer y testun sydd wedi'i amlygu.

Gallwch hefyd newid maint y testun trwy ddefnyddio'r botymau cynyddu a lleihau nesaf i'r botymau "Bold", "Italic" ac "Underline". Os cliciwch eto ar y tab "Source", gwelwch dagiau "Big" a "Small" yn cael eu defnyddio i gyfarwyddo'r porwr ynghylch pa mor fawr neu fach i wneud y testun.

### Delweddau:

Gallwch ychwanegu delweddau at eich gwefan, i wella'i hansawdd yn weledol ac i wella'i chynnwys. I ychwanegu delwedd, rhowch y cyrchwr yn y lle dymunol, a dewiswch "insert" o'r ddewislen ar frig y ffenestr. Nesaf, dewiswch "image" a nodwch leoliad ffeil y ddelwedd ddymunol ar eich cyfrifiadur. Sicrhewch eich bod hefyd yn nodi rhyw fath o "alternate text" a fyddai'n cael ei ddangos yn lle'r ddelwedd os nad yw'r porwr yn ei llwytho. Gallwch fod yn ddisgrifiadol neu'n gryno yma.

### Cefndir:

Gallwch newid eich cefndir mewn cwpwl o ffyrdd gwahanol. Cliciwch ar "Format" a "Page colours and background". Gallwch ddewis ffeil ddelwedd i'w llwytho i fyny yma fel delwedd gefndir. Neu gallech wneud rhywbeth symlach pe dymunech, trwy ddefnyddio lliw. Cliciwch ar "Use custom colours" a gallwch olygu'r lliwiau yn unol â hynny.

Peidiwch ag anghofio anfon  
enghreifftiau o'ch gwaith atom.  
Gallem hyd yn oed eu cynnwys ar  
ein gwefan neu ar ein tudalen  
Facebook!

# technocamps



[www.technocamps.com](http://www.technocamps.com)

